

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.**  
**A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mehefin 17ddeg - 2015**  
**am 7.00 o'r gloch.**

**1. Presennol** - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Gill Cheverton (GC), Alwena Roberts (AR), Rhian Hughes (RH), Carwyn Jones (CJ) a Dafydd Pritchard (DP)

**2. Ymddiheuriadau** - Cyng. Mark Williams (tymor hir), Paul Gash, Lewis Davies, Bari Gwilliam, a Alwyn Rowlands.

**3. Datgan Ddiddordeb**

MW ar drafodaeth Tyddyn Waun 5.9

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain o Mai fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. G Cheverton, wrth newid un pwynt.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

- 5.1 **Fynwent Llanddona** - CJ yn adrodd fod y Cyngor Sir wedi anfon llythyrau CPO i'r perchennog tir ond dim wedi derbyn unrhyw ymateb. Mae gobaith cychwyn ar y gwaith mis Medi. Clerc i anfon gwahodd i'r Cyngor Sir i ein cyfarfod mis nesaf. RH dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth ar gynllun.
- 5.2 **Cerrig ger Llain Gron** - LD wedi gofyn cael cyfarfod ar y safle gyda swyddog o'r Cyngor Sir. Dim gwybodaeth bellach.
- 5.3 **Baw Cŵn** - Wedi anfon siec ymlaen am yr arwyddion. Clerc i ddilyn y mater i fyny gyda'r Heddlu.
- 5.4 **Biniau lleol** - dim gwybodaeth bellach. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
- 5.5 **Lle parcio ger Tai Cyngor** - penderfynwyd gofyn i Cyng. L Davies gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.
- 5.6 **Dim arwyddion ar lwybr troed ger Fferm Glanrafon** - disgwyl mwy o wybodaeth oddi wrth BG.
- 5.7 **Llwybr Tai Bach** - Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir wrth ofyn a ydi llwybr ger Pensarn yn ddarn o'r Llwybr Tai Bach. Dal i ddisgwyl yr adroddiad llawn. Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.
- 5.8 **Arwyddion Cymraeg** - gwaith mewn llaw. LD i wneud ymholiadau.
- 5.9 **Tir Tyddyn Waun** - MW yn adrodd bod yn fater gydag ein cyfreithiwr. Clerc i gysylltu â Menter Môn i ofyn a ydym am dalu ein costau.
- 5.10 **Cyfarfod Peilonau** - grŵp wedi ei sefydlu codi ymwybyddiaeth.
- 5.11 **Pant yn y ffordd** - rhwng Tan Rallt Bach a Cae Maes Mawr. Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir.
- 5.12 **Gofrestru Buddiannau** - Clerc i greu cofrestr.
- 5.13 **Crwychyn Tŷ Mawr** - wedi ei dorri. Clerc wedi cysylltu â S Hunt.

**6. Adroddiad gan y Cynghorydd**

**Ysgol Llanddona** - AR i godi mater gydag Aelod Portffolio newydd - dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach. RH - dal i ddisgwyl pris am yr adeilad a newyddion ynglŷn ar asbestos gan y Cyngor Sir.

CJ - **Cais Ponc y Felin**, arolygydd wedi bod ar y safle ac wedi gwneud awgrymiadau. Gwaith wedi ei ail-amcangyfrif lle mae angen dau ddyfynbris arall. Mae yn debygol fod y bwrdd yn gefnogol o'r cais. CJ - Cynulliad wedi cyhoeddi gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynghorau lleol - eu gostwng o 22 i 8 neu 9 wrth newid ffiniau rhai ardaloedd.

CJ - Hub Cymunedol, ymweliad Lesley Griffiths (Aelod Cynulliad) ar 11/06 i lolfeydd lleol wedi ei ganslo. Clerc yn adrodd na fydd y Gweinidog yn bwrw ymlaen a rhai o'r cynigion yn y Papur Gwyn

- > cyfyngu a nifer o dymhorau aelodau etholedig
- > cynnal etholiadau llywodraeth gam wrth gam
- > cael gwared ag ar y gwahardd sy'n golygu na chaiff swyddogion sefyll ar gyfer etholiadau yn eu hawdurdodau eu hunain
- > tynnu'r prawf cymhwysedd y dylai trosiant cynghorau cymuned fod yn £200,000 o leiaf.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

MR yn adrodd bod angen bod yn ofalus nawr gyda cheisiadau cynllunio pen mae'r ymgeisydd angen croesi tir comin. Clerc i wneud ymholiadau ynghyn a chais Tan y Ffordd.

**Er gwybodaeth**

- 22C38C - cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Gilfach, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22CAC – cais llawn ar gyfer newid tanc septic newydd ynghyd a dymchwel adeiald allanol yn 3+4 Tyn Rhos, Llanddona - nid oes angen cais cynllunio.
- 22C223 - cais llawn ar gyfer dymchwel yr ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ac ehagu yn Pant y Bwlch, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22C194B - cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda holl faterion wedi cadw'n ôl ym Mrynteg Cottage, Llanddona - wedi ei caniatáu.

### **8. Plot Glandŵr 55**

Trafodwyd y cais gwreithiol ar gyfer annedd unllawr a modurdy ar hawlfraint. Mae'r prisiwr wedi awgrymu bod y darn tir yn werth 30% o werth y plot, gan wneud y darn tir werth £23k. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion awgrymu gwerth y tir werth £15k.

MW - bod rhaid gosod esiampl yn fan hyn, wrth fod yr un fath i bawb. Dyma'r rheswm mae'r Cyngor Cymuned wedi cymryd cyfrifoldeb am y tir comin, i helpu pobl leol wrth osod pris teg am y tir.

MR - nid ydi'r ymgeisydd wedi bod yn deg gyda ni gyda'r cais yma, oedd y mynedfa wedi ei greu yn barod. Mae gennym ddyletswydd i bobl Llanddona.

Oherwydd nid oeddem yn gallu dod i gytundeb ar bris yr hawlfraint, penderfynwyd fod y Clerc ysgrifennu at gyfreithiwr yr ymgeisydd i egluro'r sefyllfa.

### **9. Cyfrifon**

Penderfynwyd talu:-

- Morgan Evans, prisio tir comin Glyndŵr - £180.00

### **10. Ethol Is-Gadeirydd**

MR yn pwysleisio'r pwysigrwydd cael Is-Gadeirydd. Penderfynwyd symud yr etholiad ymlaen i gyfarfod nesaf.

### **11. Gohebiaeth**

e-bost – Cyngor Sir – Ilwybr Penhwnllys Plas

e-bost – Cynulliad - darparu toiledau ar gyfer defnydd gan y cyhoedd

e-bost – GC – Ilwybr/tir comin ger Pensarn a Llwyn Collen

### **12. UFA:**

12.1 Wedi derbyn cwyn gan y Cyngor Sir ynghyn a chyflwr Ilwybr sy'n arwain rhwng Penhwnllys Plas a Penhwnllys Uchaf. Gwaith cynnal a chadw nawr wedi ei wneud. DP yn adrodd fod yna fwllch mawr rhwng y camau ar y llwybr yma.

12.2 Canclwm siapan yn tyfu ar y llwybr troed o Fron Deg at yr Ysgol. Clerc wedi cysylltu â Menter Môn, wrth awgrymu i'r Cyngor Cymuned cael pris am y gwaith.

12.3 MR yn gofyn gosod Tir Comin ar agenda nesaf.

12.4 AR - llwybr o Tan Graig i Pen Cefn a Minffordd ac ymlaen wedi cau oherwydd gôr dyfiant. Clerc i gysylltu ar gontractwr i weld os ydi'r llwybr yma ar y rhestr torri.

12.5 GC yn egluro'r drafodaeth gyda deliad Llwyn Collen am y tir comin o amgylch yr ardal yma ar fap a ddarparwyd sy'n amrywio'n sylweddol at y map a ddelir gan y Cyngor Cymuned. GC i drafod y mater ymhellach.

12.6 Glaswellt o amgylch maes chwarae plant wedi ei dorri. Angen ei dorri pob pythefnos.

12.7 RH - gofyn am ganiatâd i gael defnydd o gae chwarae'r ysgol i'r Fair Haf ar 11/07. Pawb yn gytûn.

12.8 DP - coed yn gôr dyfu o amgylch y pentre'.

### **13. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.35 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 15/07/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad